**Ken Skates AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith**
**Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-701
Ein cyf/Our ref KS/02141/17

David John Rowlands AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

government.committee.business@wales.gsi.gov.uk

14 Gorffennaf 2017

Annwyl David

Diolch am eich llythyr dyddiedig 19 Mehefin ynghylch Deiseb P-05-701 Gwelliannau Diogelwch ar y Ffyrdd ar hyd Cefnffordd yr A487 rhwng Aberteifi ac Aberystwyth, i gynnwys Mannau Pasio.

Caiff yr holl safleoedd a restrwyd yn fy llythyr dyddiedig 2 Mawrth eu hystyried fel rhan o'r Adolygiad o Derfynau Cyflymder. Dyma astudiaeth dros dair blynedd sy'n edrych ar bob agwedd ar ddiogelwch ar y ffyrdd ar draws Cymru. Caiff canlyniadau'r gwaith a gynhelir eleni o adolygu oddeutu 200 o safleoedd eu defnyddio ar gyfer trefnu rhaglen waith dros y blynyddoedd nesaf. Bydd y gwaith sydd â blaenoriaeth yn cychwyn yn 2018/19.

Mae cam cyntaf y broses ddichonoldeb sydd ynghlwm wrth y rhaglen Mannau Cul bron wedi'i gwblhau. Mae ffordd yr A487 wedi'i chynnwys yn rhaglen Canolbarth Cymru ar gyfer cyfleoedd diogel i oddiweddyd, lle y byddwn yn ystyried y safleoedd mwyaf priodol i'w gwella.

Bydd rhagor o fanylion penodol ar gael ar ôl i ni gwblhau'r adolygiad ar ddechrau 2018. Bydd modd i ni hysbysu Cyngor Sir Ceredigion yn ogystal ynghylch y safleoedd a fydd yn cael eu cynnwys yn y rhaglen Mannau Cul.

Yn gywir

Ken

**Ken Skates AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith
Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.